
**I gychwyn** ..... 2
**Defnyddio'r Map** ..... 2
**Sut i ddefnyddio - Bar offer** ..... 2
**Ffocysu'r Map ar Ardal o Ddiddordeb** ..... 3
**Canfod data - Offer** ..... 3
**Teclynnau mesur** ..... 4
**Teclynnau Lluniadu** ..... 4
**Golygu mesuriadau a lluniadau** ..... 5
**Argraffu** ..... 5
**Adnewyddu'r Map** ..... 6
**Map sylfaen** ..... 6
**Teclyn Graddfa'r Map** ..... 6
**Teclyn grid XY** ..... 6

# I gychwyn

Dyluniwyd ffurf y dudalen hon fel bod modd i chi weld gwybodaeth sy'n seiliedig ar fapiau ar ochr dde eich sgrin. Cewch leihau'r panel gwybodaeth ar y chwith trwy glicio ar y saeth ger y panel.



# Defnyddio'r Map



- Llusgwch y map gyda'ch llygoden
- Oes oes olwyn ar eich llygoden, defnyddiwch hon i chwyddo i mewn ac allan neu defnyddiwch y botwm chwyddo trwy glicio ar + neu - ger y panel cyfarwyddiadau.
- Panel gwybodaeth: Mae hwn yn dangos haenau'r map/gwybodaeth hafan a chanllawiau cymorth.
- Bar offer: Mae'r bar offer yn cynnwys amryw declynnau sydd wedi'u rhannu'n dabiau yn ôl eu swyddogaeth. Gan ddefnyddio eicon y sbaner/tyrnsgriw, cewch agor a chau'r bar offer.




# Sut i ddefnyddio - Bar offer



**Botwm hafan**– cyflwyniad i'r golwg Mapiau, y telerau defnyddio a'r datganiadau hawlfraint.




**Rhestr yr haenau** – sy'n dangos yr haenau a'r themâu yn y map, cewch newid yr haenau gweladwy ar y mapiau gan ddefnyddio'r gwymplen.




Bydd y ffurf ragosodedig yn dangos yr holl haenau sydd ar gael. Ticiwch y thema berthnasol ac yna cliciwch ar y + i weld yr holl haenau. Yna cewch glicio ar yr haen rydych am iddi ddangos ar y map.


Neu




O'r gwymplen, dewiswch y thema trwy glicio ar y thema rydych am ei gweld e.e. Coedwigaeth. Yna cliciwch ar y blwch ticio ac yna + i weld yr holl haenau yn y thema hon.




**Allwedd** - I ddangos allwedd sydd i'w gweld naill ai dan bob haen neu i'r chwith o banel yr haenau a'r themâu, cliciwch ar yr eicon sydd â phedair llinell syth a bydd modd gweld eicon yr allwedd. Mae trothwyon wedi eu gosod ar rai haenau felly os yw'n llwyd, bydd angen i chi chwyddo i mewn ar y map.



## Ffocysu'r Map ar Ardal o Ddiddordeb




**Fy lleoliad** – I weld eich lleoliad cyfredol, dylech actifadu’r gwasanaeth hwn trwy ganiatáu naidlenni ar waelod y sgrin ac o fewn eich porwr.





**Botwm chwilio** am gyfeirnod y grid/lle/lleoliad/cyfeiriad.

## Canfod data - Offer

Unwaith i chi ddewis ar y map, bydd y teclynnau canfod data hyn yn diflannu oddi ar y map, a bydd y data'n ymddangos ar ffurf tabl ar waelod y sgrin. Os ydych am gadw amlinelliad ar y map, defnyddiwch y teclynnau lluniadu yn gyntaf cyn rhoi'r teclynnau canfod data dros y teclyn lluniadu.





Cliciwch ar y saeth i lawr i agor cwymplen:







**Pwynt** - Mae'r teclyn hwn yn caniatáu i chi ddewis nodwedd unigol. Cliciwch unwaith ar y map i ddewis.





**Llinell** - Mae'r teclyn hwn yn caniatáu i chi dynnu llinellau i'w dewis. Cliciwch unwaith i ddechrau'r llinell, cliciwch eto i ychwanegu pob pwynt a chliciwch ddwywaith i orffen.




**Llawrydd -** Mae'r teclyn hwn yn caniatáu i chi dynnu llinellau llawrydd i'w dewis. Cliciwch a daliwch fotwm y llygoden i lawr i ddechrau'r llinell. Daliwch y botwm i lawr wrth i chi dynnu llinell a’i adael i fynd i orffen y dewis.





**Polygon** - Gellir dewis un nodwedd neu fwy wrth ddefnyddio'r teclyn hwn. I dynnu amlinell polygon ar y map, cliciwch unwaith i ddechrau'r llinell, cliciwch eto i ychwanegu pob pwynt a chliciwch ddwywaith i orffen y lluniad.




**Petryal** - Cliciwch a llusgwch i dynnu amlinell betryal i ddewis nodweddion





**Hidlydd** – Hidlo – Cliciwch ac agorwch y panel ar y chwith i ddefnyddio'r hidlydd. Dewiswch eich ffynhonnell ddata (haen) o'r gwymplen.





- O'r gwymplen o feysydd, dewiswch y maes rydych am iddo fod yn rhan gyntaf eich datganiad hidlo, er enghraifft **Rhestr o Goetiroedd Hynafol 2011**
- dewiswch y gweithredwr, er enghraifft, =
- Yn y maes Gwerth, teipiwch y gwerth rydych am ei hidlo, er enghraifft **Safle Coetir Hynafol Adferedig**
- Os ydych am wneud y datganiad yn fwy penodol, cliciwch **Ychwanegu amod newydd** a diffiniwch gyfres arall o baramedrau.
- Cliciwch ar yr hidlydd i'w redeg
- Ar y diwedd, cliciwch ar Clirio i ddileu'r hidlydd o'r map. Ni fydd adnewyddu'r map yn clirio'r hidlydd.

## Teclynnau mesur


Amryw declynnau i fesur pellter ac arwynebedd




## Teclynnau Lluniadu





Cliciwch ar y saeth i weld y teclynnau lluniadu eraill i agor y gwymplen. Mae sawl opsiwn ar gael:








Cliciwch ar yr eicon **pwynt** yna cliciwch ar eich map i ychwanegu'r pwynt.




Cliciwch ar yr eicon **testun** yna cliciwch ar y map lle rydych am ychwanegu testun.




Cliciwch ar yr eicon **llinell** yna cliciwch neu tapiwch ar leoliadau ar y map i greu llinell. Cliciwch/tapiwch ddwywaith i orffen y braslun.




Cliciwch ar y botwm **llawrydd**. Daliwch fotwm y llygoden, yna tynnwch linell lawrydd. Tynnwch eich bys oddi ar fotwm y llygoden i orffen y braslun.





Cliciwch ar y **siâp llawrydd**. Daliwch fotwm y llygoden yna tynnwch siâp llawrydd. Tynnwch eich bys oddi ar fotwm y llygoden i orffen y braslun.





Cliciwch ar yr eicon **hirgylch**, yna cliciwch a llusgwch i dynnu hirgylch ar y map.




Cliciwch a llusgwch **gylch** ar y map.





Cliciwch ar yr eicon **polygon**. Cliciwch unwaith ar y map i ddechrau'r llinell, cliciwch eto i ychwanegu pob pwynt a chliciwch ddwywaith i orffen y lluniad.




Cliciwch ar yr eicon **petryal** ac yna llusgwch ef i dynnu amlinell betryal ar y map.

## Golygu mesuriadau a lluniadau




Botwm golygu - cliciwch neu tapiwch ar luniad presennol i ddechrau ei olygu. Cewch symud yr holl luniadau o gwmpas ar y map a golygu'r pwyntiau  I orffen golygu, cliciwch oddi ar y siâp.




Botwm dileu - cliciwch neu tapiwch i ddileu lluniad ar unwaith ac yn barhaol.




Botwm clirio - cliciwch i glirio pob lluniad oddi ar y map.


## Argraffu





- Botwm argraffu ar y bar offer - crëwch fap ar ffurf dogfen dirwedd PDF maint A4. Cewch newid y raddfa ac ychwanegu teitl.
- Cewch agor y PDF ac yna clicio ar Save As ar eich cyfrifiadur.



- Dilëwch y tic o'r sgrin cloi i symud y map o gwmpas dan y Canllaw Argraffu



## Adnewyddu'r Map




Botwm Adnewyddu'r Map ar y bar offer i glirio chwiliadau blaenorol ac ailosod y map i safle a lefel chwyddo cychwynnol y map.

## Map sylfaen





Cewch newid y map sylfaen i O'r Awyr drwy glicio ar y Map Sylfaen. (ar waelod ffenestr y map).


## Teclyn Graddfa'r Map




The Mae modd ymestyn teclyn Graddfa'r Map. Dewiswch o blith un o'r graddfeydd sydd wedi'u rhagosod. (ar waelod ffenestr y map).




## Teclyn grid XY



Mae modd ymestyn y teclyn XY i weld y cyfeirnodau grid (i'w gweld ar waelod ffenestr y map).